**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru

12 Gorffennaf 2023

Annwyl Mark,

Y DU/Y Swistir: Cytundeb ar Gydnabyddiaeth gan y Ddwy Ochr o Gymwysterau Proffesiynol

Byddwch yn gwybod mai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

Yn ystod ein cyfarfod ar 10 Gorffennaf 2023, gwnaethom ystyried y DU/y Swistir: Cytundeb Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol. Mae'r cytundeb hwn yn darparu fframwaith ar gyfer cydnabyddiaeth gan y ddwy ochr o gymwysterau proffesiynol yn y DU a'r Swistir.

Mae'r cytundeb yn ymwneud â gofynion rheoleiddio ar gyfer cymwysterau proffesiynol, y mae rhai agweddau arnynt wedi'u datganoli i Gymru. Ar y sail honno, deallwn fod Llywodraeth y DU wedi ymgynghori â'r gweinyddiaethau datganoledig ynghylch drafftio'r cytundeb a'r testun drafft perthnasol cyn ei lofnodi, a chroesawn yr ymgysylltiad hwn â'r llywodraethau datganoledig.

Gwyddom fod *Deddf Cymwysterau Proffesiynol 2022* (Deddf 2022) yn cynnwys pwerau y gellir eu defnyddio gan Weinidogion y DU neu Weinidogion datganoledig i roi cytundebau cydnabod rhyngwladol ar waith ac felly y gellir eu defnyddio i roi'r cytundeb hwn ar waith. Byddwch yn ymwybodol bod y Senedd wedi gwrthod cydsyniad i Ddeddf 2022 ar ddau achlysur, ar ôl ystyried Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

Byddem hefyd yn croesawu eich barn ar y berthynas, os o gwbl, rhwng gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol a Chonfensiwn Sewel, gan gofio bod y Senedd wedi gwrthod cydsyniad ar gyfer y rhiant-ddeddfwriaeth sy'n cael ei hystyried ar gyfer gweithredu'r cytundeb hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 11 Awst 2023.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd